## *Symud Ymlaen*

Wedi llawer iawn o drafod dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf mae strwythur newydd ar gyfer Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dod i fodolaeth ddechrau Ionawr. Ymhlith y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llambed eleni y mae lleihau nifer yr henaduriaethau a oedd gan y Cyfundeb o 30 i 14. Yn ein hachos ni yn y cylch hwn, golyga hyn ein bod yn uno Henaduriaethau Gogledd a De Aberteifi a hefyd Gogledd Penfro i ffurfio Henaduriaeth newydd Ceredigion a Gogledd Penfro. Hi fydd yr Henaduriaeth fwyaf o ran aelodaeth yn y Cyfundeb gyda thros 3,500 ac ynddi hefyd y mae’r nifer fwyaf o eglwysi: 86 ohonynt. Bydd wyth gweinidog yn gwasanaethu o'i mewn, ynghyd â thri blaenor sydd wedi'u comisynu'n ddiweddar i weinyddu'r sacramentau.

Bwriad yr ad-drefnu yw torri'n ôl yn sylweddol ar y nifer o fyrddau a phwyllgorau a gynhelir ar hyn o bryd a datganoli mwy o rym i'r henaduriaethau eu hunain. Tri Bwrdd yn unig bellach fydd yn gwasanaethu'r Cyfundeb, sef Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol, Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth, a Bwrdd Adnoddau ac Eiddo, a bydd gan bob henaduriaeth gynrychiolaeth uniongyrchol ar y byrddau hyn. Bydd gan yr henaduriaethau unigol hefyd fyrddau yn cyfateb i'r tri bwrdd hyn. Rhoddir mwy o awdurdod i'r henaduriaethau unigol i drefnu patrwm y weinidogaeth oddi mewn i'w ffiniau eu hunain. Y Gymdeithasfa bellach, ac nid y Gymanfa Gyffredinol, fydd yn pennu treth ar yr eglwysi o'i mewn ar gyfer cynnal y weinidogaeth a holl weithgarwch arall y Cyfundeb.

Y gobaith yw y bydd y trefniadau newydd hyn yn fwy addas ar gyfer Eglwys sydd yn llawer llai na'r hen drefn a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer Eglwys lawer mwy niferus.

*John Tudno Williams*

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 9 Mawrth:

| | |
|---|---|
| Mr Dewi G Hughes | Mrs Marian B Hughes |
| Bod Hywel | 14 Maes y Garn |
| (828026) | (828662) |
| dewighughes@lineone.net | marian_hughes@btinternet.com |

Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o’r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 2 | Calan 2008



***Gweinidog***
Y Parchedig Wyn Rhys Morris,
47, Glan Ceulan,
Penrhyn-coch,
Aberystwyth, SY23 3HF
e-bost: morris@coedlas.plus.com
(01970 820920)

***Cadeirydd yr Ofalaeth***
Mr J T Brian Davies,
Rhos,
Taliesin,
Machynlleth, SY20 8JG
betidavies@btinternet.com
(01970 832239)

***Ysgrifennydd yr Ofalaeth***
Mr John Leeding,
Glannant,
Taliesin,
Machynlleth, SY20 8JH
e-bost: glannant@googlemail.com
(01970 832672)



Annwyl ffrindiau

Onid yw amser yn hedfan? Ac ysywaeth, awn ninnau hefyd gydag ef! Dyna sut y teimlwn fel arfer pan ddaw'r Calan a mis Ionawr ar ein gwarthaf. Yn anad yr un adeg arall o'r flwyddyn, cawn ein hunain yn ymwybodol o dreigl y blynyddoedd. "Ânt heibio yn fuan, ac ehedwn ymaith" (Salm 90:10). Ie, creadur amser yw dyn. Dros dro y mae e ar y ddaear ac am hynny, rhaid iddo ymgeisio at ddoethineb. Meddai'r Salmydd eto: "Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth" (Salm 90:12). Mewn geiriau eraill, dysg ni i wneud y defnydd gorau o'r amser prin sydd gennym yn y byd hwn.

Cyngor yr Apostol Paul wrth Gristnogion Colosae ydoedd hyn: "Daliwch ar eich cyfle" (Colosiaid 4:5). A wnawn ninnau ddal ar ein cyfle a "phrynu'r amser" i ddibenion Duw eleni? Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn gwybod yn iawn fel y gallai gormes amser a galwadau bob dydd fynnu bod yn feistri arnom. Ydych chi'n cofio ei ymateb i'r gŵr a ddywedodd wrtho ryw dro: "Canlynaf di, Arglwydd; ond yn gyntaf caniatâ imi ffarwelio â'm teulu." (Luc 9:61). Meddai'r Iesu wrtho: "Nid yw'r sawl a osododd ei law ar yr aradr, ac sy'n edrych yn ôl, yn addas i deyrnas Dduw." (Luc 9:62) Ar yr olwg gyntaf yr oedd cais y dyn yn un cwbl naturiol. Fe fyddai wedi bod yn hynod o anghwrtais iddo fynd i ffwrdd heb ddweud wrth ei deulu am ei benderfyniad. Ond y mae dilyn Iesu yn rhywbeth na ellir ei ohirio. Y mae'n fater o frys. Delwedd drawiadol yw delwedd yr aradr a ddefnyddiwyd gan Iesu yn ei ymateb i gais y dyn, a hawdd yw ei chymhwyso i'r bywyd ysbrydol. Y mae teyrnas Dduw fel darlun o gae eang yn barod i'w aredig, a'r aradr yn barod i rwygo'r pridd. Y mae fel wynebu gwlad agored sy'n llawn posibiliadau anchwiliadwy. Efallai ein bod yn tybio nad yw'r amser gennym i ddilyn Crist heddiw. Ond os yw hi'n anghyfleus heddiw, y tebyg yw y bydd hi'n anghyfleus yfory hefyd. Am hynny, rhaid ceisio rhoi'r flaenoriaeth i'r Iesu ac i ofynion yr Eglwys bob amser, er fod hynny'n anodd. Fel yn hanes yr amaethwr sy'n aredig ei gŵys, ni ddylai dim dynnu ein sylw oddi wrth ein gwaith. Ymlaen yr â'r Cristion mewn bywyd ac y mae ganddo yntau hefyd gŵys i'w haredig.

Y mae'r Prifardd Mererid Hopwood yn ei cherdd "Gwaith y Nadolig" yn ein hatgoffa nad rhywbeth i'w gyfyngu i gyfnod y Nadolig yn unig ydyw gweithgarwch yr Eglwys, ond y mae i fod i barhau ar hyd y flwyddyn er hyrwyddo dyfodiad y Deyrnas.

Peilot awyrennau oedd yr awdur, Antoine de Saint-Exupéry, a oedd yn arfer cludo'r post o Baris i wahanol rannau o Affrica. Fe fyddai'n gorfod disgyn yn niffeithdir y Sahara weithiau am fod rhywbeth o'i le ar ei awyren. Fe gyhoeddodd nifer o lyfrau eraill yn disgrifio ac yn dehongli ei brofiadau. Ef oedd yr awdur Ffrangeg y darllenwyd y mwyaf o'i waith yn yr 20fed ganrif. Diflannodd am byth yn ystod y nos ar 31 Gorffennaf 1944 tra oedd yn hedfan i gasglu data am symudiadau lluoedd yr Almaen.

Yn *Y Tywysog Bach* mae'r awdur wedi gorfod glanio yng nghanol y Sahara. Un noson ar ôl mynd i gysgu ar y tywod 'fil o filltiroedd o unrhyw wlad gyfannedd', mae'n cael ei ddihuno gan lais bach yn dweud, 'Os gwelwch chi'n dda, tynnwch lun dafad i fi!' Dyna'r tro cyntaf iddo gwrdd â'r Tywysog Bach. O asteroid 612 mae'r Tywysog Bach wedi dod, ac ar ei ffordd i'r ddaear mae wedi ymweld â phlanedau eraill, pob un ohonyn nhw'n gartref i un oedolyn ac iddo briodoledd benodol, megis y meddwyn a'i awydd i anghofio, y dyn busnes barus, a'r dyn balch gwag ei fywyd. Yn ei ddoethineb plentynnaidd mae'r Tywysog Bach yn gweld oferedd ymddygiad pob un ohonyn nhw, ond heb eu deall o gwbl. Yr hyn mae e'n ei ddeall yw'r hyn sy'n bwysig yn ei fywyd ef, sef y pethau mae e'n gorfod gwarchod rhagddyn nhw, megis y coed baobab, neu ofalu amdanyn nhw, megis y llosgfynyddoedd, neu'r hyn y mae'n rhaid ymdrechu i'w cyrraedd, megis y ffynnon yng nghanol y ddiffeithdir. Drwy'r hanesion hynny, a llawer yn rhagor, mae'r darllenydd yn cael ei gyfareddu a'i arwain yn dyner i ystyried ac ailystyried ei werthoedd a'i ragdybiaethau ef ei hun.

Yn ei gyfanrwydd mae'r llyfr yn deyrnged hyfryd i gyfeillgarwch a gofal a chariad a phethau pwysicaf bywyd, a hynny am ei fod yn tarddu o brofiad dyn a wyddai'n iawn sut beth oedd hi i fod mewn cyfyngder enbyd, wyneb yn wyneb â'i farwolaeth ef ei hun.

Yng ngeiriau'r Tywysog Bach: 'Dyma fy nghyfrinach i. Mae hi'n syml iawn. Dim ond â'r galon mae gweld yn iawn. Mae'r hyn sy'n bwysig yn anweledig i'r llygad.'

Gobeithio y cewch chi yr un blas arno ag a ges i.


*Llinos Dafis*

*Y Tywysog Bach*

cyfieithiad o

*Le Petit Prince*

gan Antoine de Saint-Exupéry




Digwyddais daro ar gopi o *Le Petit Prince* gyntaf yn y dyddiau pan oeddwn i gartref yn magu dau fab bach, tebyg iawn i'r Tywysog Bach. Doeddwn i erioed wedi clywed amdano cyn hynny, er ei fod wedi ymddangos gyntaf yn Ffrangeg yn 1943. Teimlais yn syth ei fod yn drysor o lyfr, ac fe es i ati i'w gyfieithu i'r Gymraeg er mwyn rhannu'r wefr gyda Chymry eraill. Cyhoeddwyd fy nghyfieithiad yn 1974 gan Gwmni Cyhoeddiadau Modern o Lerpwl, ac rwy'n dra diolchgar i'r Parch. D. Ben Rees am ymgymryd â'r gwaith.  Fe fûm i'n ei ddefnyddio'n yr Ysgol Sul droeon wedi hynny  – mae llawer ynddo sy'n addas ar gyfer sbarduno sgwrs a thrafodaeth ymhlith plant hŷn ac oedolion, er y gall plant ychydig yn iau hefyd fwynhau'r straeon a'r lluniau.

O dipyn i beth dechreuais dderbyn llythyron o wahanol rannau o'r byd yn gofyn am gopi Cymraeg a sylweddolais fod *Le Petit Prince* yn un o'r llyfrau hynny sy'n cael eu casglu. Mae'r llyfr bellach wedi ei gyhoeddi mewn 160 o ieithoedd a nod y casglwyr yw cael set gyfan ond mae'r fersiwn Cymraeg gwreiddiol wedi bod allan o brint ers blynyddoedd mawr. Roeddwn i wrth fy modd felly pan gysylltodd gwasg Tintenfass o'r Almaen â fi'r hydref diwethaf yn gofyn am ganiatâd i'w ail-gyhoeddi. Mae yna wefannau aneirif yn dwyn yr enw *Le Petit Prince* yn ogystal bellach.

Y mae gwaith y Nadolig yn dechre
Pan ddaw dydd Nadolig i ben,
Pan fydd Santa 'di throi hi am adre
A'r goeden yn ddim byd ond pren.

Pan fo'r tinsel yn saff yn yr atic
Yn angof mewn dau neu dri blwch,
Y cyfarchion a'r cardie 'di llosgi
Ac ysbryd yr Ŵyl yn hel llwch.

Bryd hynny y mae angen angylion
I dorchi'u hadenydd go iawn,
A bryd hynny mae angen lletywr
All 'neud lle er bo'r llety yn llawn.

Yr un pryd mae galw am fugail
I warchod y defaid i gyd,
Fel mae galw am ddoethion a seren
I egluro tywyllwch y byd.

Mae 'na alw am gast drama'r geni
Drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,
Am fod gwaith y Nadolig yn anodd –
Yn ormod o waith i un dydd.

Nid fy mwriad yw dibrisio ymroddiad y sawl sy'n gweithio'n ddi-flino er llwyddiant yr Achos. Yr wyf am eich sicrhau fy mod yn werthfawrogol iawn o bob ymdrech a dyfalbarhad. Er hynny, ar ddechrau blwyddyn arall, beth am i ni addunedu o'r newydd i gydio'n dynn yn yr aradr? Beth am i ni ddod i addoli Duw yn fwy ffyddlon fel y bydd ein bywydau'n gyfoethocach, a'n profiadau ohono yn helaethach a dyfnach? Beth am i ni geisio darganfod ei ewyllys Ef ar ein cyfer trwy ddarllen y Beibl yn fwy aml a thrwy offrymu ein gweddïau iddo yn fwy cyson? Beth am i ni geisio ei ddarganfod ar waith ym mywydau pobl eraill, trwy ei weld ar waith yn ein bywydau ninnau? Dyna **fydd** gwneud y defnydd gorau o'n hamser eleni.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas
Wyn Morris (Bugail)

Rydym yn falch o groesawu **Mari Fflur Williams** yn Swyddog Cyfathrebu newydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac yn dymuno'n dda iddi yn y swydd allweddol hon. Mae hi wedi anfon neges arbennig i'r rhifyn hwn o *Gair o'r Garn*:

Dechrau blwyddyn newydd – pa well amser i lansio cynlluniau newydd!

Rydw i'n gweithio fel Swyddog Cyfathrebu i Eglwys Bresbyteraidd Cymru ers rhai misoedd bellach, ac yn falch iawn o gael cyfle i ysgrifennu yn *Gair o'r Garn*.

Un o fy mhrif dasgau yn ystod y misoedd a fu oedd ceisio efelychu Capel y Garn drwy ddylunio cylchlythyr chwarterol newydd. *Rhwydwaith* fydd ei enw, a chaiff y rhifyn cyntaf ei gyhoeddi ym mis Ionawr – felly gobeithio y cewch gyfle i'w ddarllen cyn bo hir! Bydd *Rhwydwaith* yn fodd lliwgar a deniadol o dynnu sylw at bobl a llwyddiannau yr Eglwys, gan bwysleisio sut y mae neges Crist yn berthnasol i gymdeithas heddiw.

Rydw i hefyd yn awyddus i wneud defnydd ehangach o e-bost o fewn y Cyfundeb, ac rwyf wedi sefydlu bwletin electronig newydd ar gyfer ein haelodau. Caiff y rhifyn cyntaf, sy'n cynnwys pigion o newyddion y Cyfuneb, tameidiau o'r wasg ac ambell i raghysbyseb, ei yrru ym mis Ionawr. Os dymunwch dderbyn y bwletin, gyrrwch e-bost i mari@ebcpcw.org.uk. Fy ngobaith yw y bydd y wefan hefyd yn cael gwedd newydd cyn bo hir!

Gobeithio y gallaf helpu i greu delwedd fwy cyfoes i'r Eglwys Bresbyteraidd, drwy wneud y pethau uchod a hefyd drwy gyfathrebu ein newyddion a'n safbwyntiau i'r cyfryngau. Mae gan elusennau heddiw ddelweddau proffesiynol a smart, ac rwy'n teimlo y gellid ehangu apêl yr Eglwys Bresbyteraidd, a dangos bod gennym neges berthnasol a chyfoes, drwy ddefnyddio technegau a thechnoleg modern.

Byddaf yn cadw llygad ar *Gair o'r Garn*, ond cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw newyddion arall neu ddigwyddiadau ar y gweill. Byddai diddordeb arbennig gennyf mewn clywed am ffyrdd blaengar o addoli neu wasanaethau anarferol – ac rydw i bob amser yn barod i ymweld â digwyddiadau diddorol gyda fy nghamera!

### *Seion*

Fore Sul, 28 Hydref, gwahoddwyd ymwelydd, sef Mrs Heulwen Lewis, Capel Bangor, i arolygu gwaith y dosbarthiadau yn yr ysgol Sul. Cyflwynodd y plant a'r oedolion eitemau o'r gwahanol feysydd llafur yn y gwasanaeth agoriadol gan greu naws ac awyrgylch arbennig i'r bore. Yna, cafwyd anerchiad gan Heulwen ar bwysigrwydd magwraeth yn yr ysgol Sul a chanmoliaeth i'r athrawon am eu hymroddiad yn hyfforddi a chynnal diddordeb o Sul i Sul. Wrth iddi fynd o gwmpas y dosbarthiadau cafwyd trafodaeth gyda'r plant a gwerthfawrogiad o'u gwaith ymarferol ar ffurf arddangosfa. Daeth rhieni a ffrindiau i gefnogi hefyd a hyfryd oedd cael cyfle i rannu gwybodaeth gyda hwy.

Nos Lun, 29 Hydref, cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Y cennad gwadd oedd y Parch. Elwyn Pryse a chafwyd ganddo neges rymus a diddorol ar y testun 'Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol'. Llywyddwyd yr oedfa gan ein gweinidog, y Parch. Wyn Morris. Addurnwyd y capel yn chwaethus ar gyfer yr achlysur a threfnwyd lluniaeth ar gyfer pawb a oedd yn bresennol ar ddiwedd yr oedfa gan gynnig cyfle i gymdeithasu.

Bore Sul, 18 Tachwedd, cynhaliwyd y bore coffi blynyddol yng ngofal y dynion. Daeth tyrfa dda iawn ynghyd i gefnogi'r ymdrech olaf mewn blwyddyn o amrywiol weithgareddau dan nawdd yr ysgol Sul i godi arian at apêl Sierra Leone. Fe wnaeth y stondin fwyd a'r cardiau Nadolig werthu eu cynnyrch i gyd a mwynhawyd sawl paned o goffi a the yng nghwmni plant bach, aelodau'r ysgol Sul, rhieni a ffrindiau Hyd yn hyn codwyd £440 at yr apêl hon. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

### *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

***21 Ionawr***
Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth yn Festri'r Garn am 7 o'r gloch

***2 Mawrth***
Oedfa Gŵyl Ddewi Plant yr Ofalaeth
dan arweiniad y Bugail yn y Garn am 10 o'r gloch

***23 Mawrth***
Oedfa'r Pasg dan arweiniad y Bugail yn y Garn am 10 o'r gloch

### *Grŵp Help Llaw y Garn*



Fe gyfarfu'r Grŵp Help Llaw yn gyson yn ystod tymor yr hydref gan ymuno mewn nifer o weithgareddau i gefnogi elusennau fel Gofal Henoed Ceredigion, Hospis Tŷ Hafan, yr anghenus yn Lithuania ac yn Bosnia.

Trwy haelioni aelodau o'r capel a chyfeillion, cafwyd dros ddeugain o focsys llawn a lliwgar ar gyfer ymgyrch Operation Christmas Child a £135 o nawdd.

Yn ystod y tymor trefnwyd ymweliad â Chrefftau Pennau a'r Ganolfan Arddio yng Nghapel Dewi. Daeth y tymor i ben gydag ymweliad â Chartref Tregerddan i ganu carolau. Diolch am bob cyfraniad a chefnogaeth i waith y Grŵp Help Llaw.

*Shân a Bethan*



### *Cofion*

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at yr aelodau hynny sydd ar hyn o bryd yn methu ymuno yn y gwasanaethau o Sul i Sul – rhai yn eu cartrefi, eraill mewn ysbytai a chartrefi henoed.

Cofiwn hefyd am rai o'n plith sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar—a gobeithiwn y byddwch yn profi o gysur y gwir Ddiddanydd.

### *Cyfathrebu o fewn yr Ofalaeth*

Yn ddiweddar, mae Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth wedi bod yn ystyried ffyrdd o wella cyfathrebu o fewn yr ofalaeth – ac y mae'r cylchlythyr hwn yn un ymgais i wneud hynny.



Awgrym arall a dderbyniwyd yw ein bod yn casglu cyfeiriadau e-byst aelodau'r gwahanol eglwysi. Sylweddolwn nad oes cyfeiriad e-bost gan bawb, a byddwn yn gwneud pob ymdrech i sirchau bod unrhyw wybodaeth a rennir yn cael ei throsglwyddo mewn dull arall i'r aelodau hynny.

Felly, a fyddech cystal â'n helpu drwy roi eich cyfeiriad e-bost i ysgrifennydd eich capel, neu i ysgrifennydd yr ofalaeth, cyn gynted â phosib? Hefyd, mewn ymateb i gais Mari Fflur, Swyddog Cyfathrebu newydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, bwriedir trosglwyddo'r cyfeiriadau e-byst a dderbynnir iddi hithau – oni fyddwch yn dweud yn wahanol.

Cynhelir gwylnos
dan arweiniad
y Bugail
yng nghapel y Garn,
nos Lun, 31 Rhagfyr,
am 11.30 o'r gloch.


Dewch i groesawu'r
flwyddyn newydd
mewn ysbryd o fyfyrdod
ac addoliad.





# Tudalen y Plant

**Fedrwch chi ddatrys y croesair?**

Cofiwch fod ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh yn un llythyren




**Llongyfarchiadau i Iestyn Evans, y Garn, enillydd cystadleuaeth 'Tudalen y Plant' yn rhifyn yr Hydref. Da iawn ti, Iestyn.**

**Y tro yma, y gamp yw datrys y croesair. Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn 29 Chwefror. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het. Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen. Ewch ati i gyd dros y Nadolig!!**

## *Rehoboth*

*Cymdeithas y Chwiorydd*
Dechreuwyd ein cyfarfod cyntaf brynhawn Mawrth, 9 Hydref, pan aeth tyrfa ohonom i ymweld â Chefn Caer ym Mhennal. Tŷ neuadd canol-oesol Owain Glyndŵr yw Cefn Caer, ac mae'n dyddio o'r cyfnod cyn y bymthegfed ganrif. Cawsom ein tywys ar daith bersonol, ddiddorol o amgylch y tŷ gan y perchennog, Elfyn Rowlands.

Roedd Cefn Caer yn ganolfan bwysig ar gyfer noddi beirdd a byddai'r tŷ hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Owain Glyndŵr pan luniwyd Llythyr Pennal. Gellir gweld replica o goron Glyndŵr a chleddyf y genedl, sydd wedi ei gynllunio ar batrwm un a roddwyd i'r tywysog yn anrheg gan Frenin Ffrainc ar achlysur ei goroni ym 1404. Diolchwyd yn ddiffuant gan ein Llywydd, Eirlys Jones, gan bwysleisio pa mor bwysig yw gwarchod ein treftadaeth.

Erbyn hyn, roedd pawb yn barod am baned, a throwyd tuag adref, gan sefyll yn yr Hen Efail, Ffwrnais, am de blasus wedi ei baratoi gan Tegwen, Margaret, Edna, Eirlys a Non.

Gan fod cymaint ohonom wedi mwynhau peintio ar grochenwaith y tymor diwethaf, penderfynwyd ail-ymweld â gweithdy Helen, Blue Island Ceramics, yn Ynys-las brynhawn dydd Mawrth, 13 Tachwedd. Braf oedd cael cwmni y Parchedigion Wyn a Judith Morris, a dwy aelod newydd, sef Barbara Jenkins ac Alwen Griffiths.

Roedd pawb i'w gweld yn mwynhau, ac yn teimlo'n fwy hyderus a mentrus y tro yma. Cafwyd siawns i ymlacio a chymdeithasu dros de blasus a baratowyd gan Helen.

Talwyd y diolchiadau gan Eirlys Jones, ein Llywydd. Bu'n brynhawn difyr dros ben, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld y darnau gorffenedig!

*Non Griffith*

*Dymuniadau Gorau*
Hoffem anfon ein dymuniadau gorau at Mrs Myfanwy Rowlands sydd yn gwella adref ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty, a hefyd i Graham, gŵr Carys Briddon, sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd.

## ROBERT MACHRETH EVANS

Trist oedd clywed ar yr 2il o Dachwedd am farwolaeth Mr Machreth Evans, Cae Crwth, Llandre, yn 89 mlwydd oed. Brodor o Lannerch Llyn, Cwm Maethlon, yn Sir Feirionnydd oedd Machreth, yn fab fferm – a ffermio oedd ei fryd.

Fe symudodd ef a'i briod Elinor i fferm Erglodd, Taliesin, yn 1958 ac ymaelodi yng Nghapel Rehoboth yn Nhaliesin. Bu'r ddau efo'u plant, Annwen ac Elisabeth, yn aelodau ffyddlon a gweithgar ar hyd y blynyddoedd.

Ffermio defaid oedd ei fryd yn fwyaf arbennig ond yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn ceffylau hefyd. Yng nghyfnod prysuraf ei fywyd bu'n ffermio ar raddfa eang, nid yn unig Erglodd ond roedd hefyd yn ffermio Tynywern yng Nghemaes Road a'r Ruel Uchaf yn Bow Street, ac yn 1991 symudodd y teulu i'r Ruel ac adeiladu tŷ newydd, sef Cae Crwth, ac yno y buont hyd ddiwedd y daith.

Fe gollodd ei briod Elinor yn 2002 ond fe ddaliodd yn ffyddiog i'r diwedd. Bu Annwen ac Elisabeth a'i chwech ŵyr yn gysur mawr iddo.

Roedd yn ddyn tawel, boneddigaidd a diymhongar, ac fe roddodd o'i ddawn a'i allu i'r byd amaethyddol.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Rehoboth ar y nawfed o Dachwedd ac fe roddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent y dref ym Machynlleth.

Fe hoffa Annwen ac Elisabeth imi ar eu rhan ddiolch i bawb am y gofal a'r caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt fel teulu yn ystod ei waeledd ac hefyd ar ôl ei ymadawiad.

Trist yw meddwl y bydd sedd teulu Erglodd yn Rehoboth bellach yn wag.

*Bob Williams*

## *"OS MÊTS" yn edrych ymlaen*

Fel y gwyddoch, sefydlwyd ***"OS MÊTS"*** i hyrwyddo gweithgareddau ymhlith ieuenctid eglwysi a chapeli Gogledd Ceredigion mewn awyrgylch Gristnogol. Cafwyd ymateb hynod gefnogol yn ystod tymor yr hydref, gyda gwahanol weithgareddau a thrafodaethau yn ennyn diddordeb ieuenctid yr ardal – gan gynnwys ymweliad â'r pantomeim yn Felin-fach yng nghanol mis Rhagfyr.

Mae rhaglen ar gyfer tymor y gwanwyn yn cael ei llunio ac mae croeso i unrhyw ieuenctid o oedran ysgol uwchradd i ymuno yn y gweithgareddau – cyfle gwych i gymdeithasu gyda chyfoedion mewn awyrgylch lawen a rhydd.



Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gefnogi'r fenter, ond rydym yn chwilio am wirfoddolwr sydd â diddordeb mewn gwaith ieuenctid i gymryd at arweinyddiaeth ***"OS MÊTS".*** Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â'r Parch. Wyn Morris [01970-820920] neu Dewi Hughes [01970-828026].

Eisoes cafwyd nawdd drwy Gronfa Eleri, eglwysi a chapeli'r cylch ynghyd ag unigolion i gynnal y gweithgaredd – a gwerthfawrogir pob cyfraniad.

*Astudiaeth Feiblaidd*



Ydych chi'n credu bod gwyrthiau'n digwydd heddiw? Oedd Iesu'n blentyn perffaith? Oes gennych chi brofiad o iacháu drwy ffydd? Ydi pregethu wedi colli'i awdurdod heddiw?

Dyna rhai o'r cwestiynau dyrys ac amrywiol mae'r criw sy'n dod at ei gilydd o wahanol gapeli'r ofalaeth i'r astudiaeth Feiblaidd, dan ofal y Gweinidog, wedi bod yn eu hystyried yn ddiweddar. Yr ydym yn ddiolchgar iawn iddo am baratoi mor drylwyr ar gyfer y grŵp bob wythnos ac am ei arweiniad cadarn a sensitif – gan wneud yn siŵr nad ydym yn crwydro'n rhy bell oddi wrth y pwnc dan sylw.

Mae'r pwyslais ar *Fyw y Ffydd* drwy astudio Efengyl Luc, gan ddilyn llawlyfr Maes Llafur yr ysgolion Sul gan y Dr Elwyn Richards. Rydym eisoes wedi edrych ar hanesion geni Iesu a'i gyflwyno yn y deml, ei ymweliad â Jerwsalem yn 12 oed, y temtiad, a dechrau ei weinidogaeth, gan gynnwys galw'r disgyblion cyntaf a chyflawni nifer o wyrthiau.

Mae croeso i ragor ddod – does dim rhaid i chi ddod *bob* wythnos, a does dim *rhaid* i chi ddweud dim byd. Criw amrywiol iawn ydyn ni: mae rhai yn gadarn iawn eu ffydd, a braint yw gwrando ar eu tystiolaeth; mae eraill yn fwy amheugar, ac yn dal i chwilio am atebion, a rhaid parchu eu gonestrwydd. Dydy pawb ddim wastad yn cytuno â'i gilydd, wrth gwrs, ond mae'r cyfan yn cael ei wyntyllu mewn awyrgylch oddefgar, gynhaliol.

Mae'r 'dosbarth' yn un symudol, ac yn ymweld â gwahanol gapeli'r ofalaeth yn eu tro.

Felly, beth am droi i mewn atom ac ymuno yn y trafod – neu wrando yn unig. Fel arfer, bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal am 7 o'r gloch ar nos Iau – ond mae prysurdeb a galwadau eraill weithiau'n golygu newid trefniadau. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch ag ysgrifennydd eich capel neu ewch i ddyddiadur gwefan y Garn (www.capelygarn.org/dyddiadur).

***Gerlan***

*Y Gymdeithas*
Croesawyd Cymdeithas yr Hebog i ymuno â ni nos Fercher, 14 Tachwedd. Trefnwyd ac arweiniwyd y noson yn fedrus gan John Hughes, y Dolau, a llywyddwyd gan y Parchedig Elwyn Pryse. I orffen y noson, hyfryd oedd cael cymdeithasu dros baned a bwffe a baratowyd gan ferched y Gymdeithas. Diolchwyd ar ran yr ymwelwyr am y croeso ac am noson hynod o ddiddorol gan Ieuan Parry, Blaen-plwyf. Mae yna groeso cynnes i ragor ymuno â'r Gymdeithas. Yr ysgrifenyddes yw Nansi Hayes; ffôn 871255.

*Gwaeledd*
Wrth baratoi'r nodiadau hyn deallwn fod ein Trysorydd, sef John Rees, wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais. Daeth Mrs Evelyn Jones, Y Wennol, adref o'r ysbyty ar ôl anhwylder. Cofiwn hefyd am Michael Hayes (Dunstall) sydd yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd, wedi cael llawdriniaeth. Dymunwn yn dda i'r tri, ac anfonwn ein cofion cynhesaf atynt. Hefyd, at Dora Richards sydd yng Nghwmcynfelin; gwelwn ei cholli yn fawr o'n plith.

***Madog***

Nos Wener, 2il Tachwedd, cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch pan ddaeth tyrfa luosog ynghyd i wrando ar y Parch. Judith Morris. Croesawyd hi i'n plith gan ein gweinidog, ac fe gafwyd gwasanaeth bendithiol yn ei chwmni. Cynorthwywyd wrth yr organ gan Mrs Angharad Rowlands ac addurnwyd y capel gan Miss Alwen Griffiths. Diolchwyd iddynt am eu cyfraniad gan y gweinidog.

Unwaith eto mae Cymdeithas Madog wedi trefnu rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf. Ar 18 Hydref, gwahoddwyd y Parch Elwyn Pryse i annerch ac mi soniodd am ei ddyddiau cynnar yn ardal Pontarfynach a Chwm Ystwyth, gan gyfeirio at hynt a helynt a cymeriadau yr ardal. Cafwyd noswaith ddifyr iawn yn ei gwmni.

Croesawyd Dr Robin Chapman i'n plith ar 15 Tachwedd. Bu'n sôn am ei helyntion fel cofiannydd, a cafwyd noson diddorol iawn ganddo, gyda sawl un yn ei holi cwestiynau iddo ar ddiwedd y noson.

Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd am ddod atom i'r cyfarfodydd.

## Mawrth

*Blaenor y Mis: Eddie Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan-Morgan / Dewi G Hughes*

**2** Oedfa Gŵyl Ddewi Plant yr Ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
yn y Garn am 10 o'r goch

5 Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch
Dathlu Gŵyl Ddewi

**9** Oedfaon i'w trefnu

14 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson yng nghwmni Beti Griffiths, Llanilar

**16** Sul y Blodau
Bugail

21 Oedfa gymun ar fore'r Groglith
dan arweiniad y Bugail
am 9 o'r gloch



**23** Sul y Pasg
Oedfa'r Ofalaeth dan arweiniad y
Bugail yn y Garn am 10 o'r gloch

**30** Y Parchedig Wiliam Owen

## Ionawr

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins*

**6** Y Parchedig Elwyn Pryse
Bugail

9 Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch
Gareth William Jones

11 Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch

**13** Y Parchedig J Pinion Jones

18 Y Gymdeithas Lenyddol am 7.30 o'r gloch
'Dathlu'r Plygain' gyda Dr Rhiannon Ifans a Pharti'r Penrhyn

**20** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

21 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth am 7 o'r gloch

**27** Y Parchedig Harding Rees

28 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch



Plant yr ysgol Sul yn y gwasanaeth diolchgarwch

***Chwiorydd y Garn***



Dymuna Pwyllgor Chwiorydd y Garn ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Ffair Nadolig. Diolch yn arbennig i'r rhai fu'n helpu ar y stondinau ac yn y gegin. Gwnaethpwyd elw o £1,035.

**Chwefror**

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Marian Beech Hughes / D Bryn Lloyd*

**3** Dr Rhidian Griffiths

6 Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch
Gwenda a W. J. Edwards

**10** Y Parchedig Tudor Davies
Bugail

15 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Ymweld ag Ysbyty Jowai, India',
gyda Gwynn Angell Jones, Y Felinheli

**17** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**24** Y Parchedig Gwyn Madoc Jones

***Apêl Sierra Leone***

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau tuag at yr apêl yma a drefnwyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gynorthwyo trigolion un o wledydd tlotaf y byd. Trosglwyddwyd swm o £1,300 (heb gynnwys unrhyw ad-daliadau Cymorth Rhodd) fel cyfraniad y Garn i'r Gronfa. Gwerthfawrogir eich haelioni.